| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **23 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**<br>**Cais i gofrestru llwybr cyhoeddus ar y Map a Datganiad Diffiniol, Harbwr Nefyn, Tref Nefyn.** |
| **PWRPAS** | **Ystyried a ddylai'r Awdurdod lunio Gorchymyn Addasu Map Diffiniol.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Y dylid GWRTHOD y cais ar y sail nad oes modd bodloni'r cod o gyflwyniad tybiedig dan adran 31 (1) Deddf Priffyrdd 1980.** |
| **AWDUR** | **Pennaeth yr Adran Amgylchedd** |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1. Cyfeiria'r adroddiad hwn at gais a gyflwynwyd i'r Cyngor dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("WCA") i gofrestru llwybr cyhoeddus yn Nhref Nefyn ar y Map Swyddogol.

1.2 Gwneir y cais ar y sail bod y cyhoedd wedi cerdded ar y llwybr hwn, fel petai ganddynt yr hawl, yn ddirwystr ac yn gyson, heb fod yn gyfrinachol a heb ganiatâd y tirfeddiannwr dros gyfnod o ugain mlynedd.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Ym mis Rhagfyr 2018, derbyniwyd gais gan y Cynghorydd Gruffydd Williams, aelod lleol o Gyngor Gwynedd (y Cyngor), dan Adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i gofrestru llwybr cyhoeddus ar y Map a Datganiad Diffiniol sy'n cysylltu o lwybr cyhoeddus rhif 19 yn Nhref Nefyn (Cyfeirnod Grid OS SH 29631 40814) ac yn arwain i lawr i'r traeth i gyfeiriad y gogledd, yna ar hyd ymyl y traethlin i Harbwr Nefyn (Cyfeirnod Grid OS SH 29613 41018).

2.2 Cedwir copïau o'r cais, ffurflenni tystiolaeth defnyddwyr a datganiadau a gyflwynwyd gan ddefnyddwyr a sylwadau’r tirfeddianwyr ar ffeil gan y Cyngor.

2.3 Canfuwyd bod y cais gwreiddiol yn ddiffygiol oherwydd y dilyniant y cafodd y ffurflenni eu cyflwyno gan yr ymgeisydd. I gywiro'r mater, gwahoddwyd yr ymgeisydd i ail-gyflwyno'r cais yn unol â'r ddeddfwriaeth.

2.4 Derbyniwyd y cais diwygiedig fis Tachwedd 2021.

2.5 Dengys y llwybr troed a hawlir ar gynllun yr adroddiad, mewn coch rhwng pwyntiau A - B - C - D ac E, fel y'i gwelir yn Atodiad 1.

2.6 Disgrifiad o'r llwybr a hawlir: Mae'r llwybr a hawlir yn cychwyn ym Mhwynt A ar y cynllun, yn ei gyffordd â Llwybr Cyhoeddus rhif 19 yn Nhref Nefyn. O bwynt A, gan deithio i gyfeiriad y gogledd i lawr llwybr cul, serth gyda llawer o risiau, mae’r llwybr yn cyrraedd traeth tywodlyd ym Mhwynt B. O bwynt B, mae’r llwybr a hawlir yn parhau i gyfeiriad y gogledd, gan fynd heibio sawl cwt glan y môr yn syth ar yr ochr chwith tuag at 'Pen Ogfa' ym Mhwynt C. O Bwynt C, mae'r llwybr a hawlir yn croesi rhan fach o laswellt ac yn parhau ar batio'r 'Hendafarn'. O'r 'Hendafarn', mae'r llwybr a hawlir yn dilyn wal garreg isel ar y chwith, yn ogystal ag eiddo 'Glan Môr' a 'Hafod y Môr' tuag at ran arall o laswellt ym Mhwynt D. O Bwynt D, mae'r llwybr a hawlir yn parhau ar y rhan o laswellt o flaen mwy o gytiau glan y môr cyn gorffen ym Mhwynt E, gerllaw'r pyllau creigiog. Gellir gweld llun o'r pyllau creigiog

a phwyntiau eraill yn Atodiad 2. Cyfanswm hyd y llwybr yw tua 213 metr gyda lled amrywiol o hyd at 2.5 metr.

2.7 Lleolir arwydd llwybr cyhoeddus rhwng 'Pen Ogfa' a'r 'Hendafarn'. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gofnod i ddangos bod yr arwydd hwn yn perthyn i'r Cyngor nag ei fod wedi'i osod gan y Cyngor.

2.8 Mae Llwybr Cyhoeddus rhif 19e yn Nhref Nefyn, fel a ddangosir yn y cynllun, yn gorffen yn syth y tu ôl i un o'r cytiau. Yn dilyn tirlithriad (fel a ddangosir yn un o'r lluniau yn Atodiad 2), nid oes modd gwneud yr un defnydd cyhoeddus ohono ac, ar gyfer dibenion presennol, ni ddylid ystyried y llwybr cyhoeddus hwn fel rhan o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

3.0 Ar ôl darllen y pecyn cais a chymryd cyngor cyfreithiol, mae awdur yr adroddiad hwn yn credu ei fod yn hanfodol i'r Cyngor wrthod y cais am y rhesymau a ganlyn -

3.1 **Methiant 1:** Ni ellir adnabod rhan o'r llwybr a hawlir rhwng pwyntiau B i E yn y cynllun ar y ddaear ac nid oes ganddo unrhyw ffiniau arwahanol. Nid oes modd cadarnhau a oes gwir ddefnydd wedi'i wneud (naill ai gan y cyhoedd neu fel arall) gan nad yw'n bodoli mewn modd adnabyddadwy ar y ddaear. Yn benodol, dadleuir wrth gerdded, y byddai aelodau o'r cyhoedd yn dueddol o ddefnyddio'r llwybr a hawlir neu unrhyw ran arall o'r traeth (yn dibynnu ar y llanw), ac mae disgwyl iddynt gofio yn rhesymol mai'r llwybr yr oeddent yn ei ddefnyddio dros gyfnod penodol oedd y llwybr a hawlir.

Mae'n dilyn o'r uchod nad yw'r ddarpariaeth ganlynol o'r cod yn cael ei bodloni: "...heblaw am ffordd o gymeriad o'r fath na allai ei defnyddio gan y cyhoedd arwain mewn cyfraith gyffredin at unrhyw ragdybiaeth o gyflwyniad...". Yn benodol, roedd y gyfraith gyffredin yn gofyn am sicrwydd ynghylch graddfa'r ffordd yn yr ystyr y gellir ei hadnabod ar y ddaear. Yma, nid oes modd bodloni'r gofyniad hwn.

3.2 Gwrthwynebiad polisi cyhoeddus: Gan nad oes modd adnabod y llwybr a hawlir, yna nid oedd modd i'r rheini sy'n gwrthwynebu'r cais fyth gael unrhyw ffordd o wybod y defnydd cyhoeddus honedig, ac yn benodol, nid oedd modd i wrthwynebwyr o'r fath wrthwynebu'r defnydd cyhoeddus honedig, o fewn y cyfnod ugain mlynedd neu fel arall. Yn llythrennol, ni welodd y tirfeddianwyr y rheini sydd wedi honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr a hawlir.

3.3 **Methiant 2:** Dadleua'r Cyngor y defnyddiwyd y llwybr a hawlir yn bennaf gan y rheini oedd yn defnyddio neu'n berchen ar y cytiau a/neu gychod ar y traeth. Yn benodol, nid oes gan derfynfa ogleddol y llwybr a hawlir unrhyw gyswllt at briffordd neu rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, ac mae'n gorffen ym mhwynt E. Gan nad oedd y cyhoedd yn gyffredinol byth yn defnyddio'r llwybr, yna nid oes modd ystyried defnydd o'r fath fel hawl, ac felly, nid oes modd bodloni'r cod o gyflwyniad tybiedig dan adran 31 (1) Deddf Priffyrdd 1980.

3.4 Er lles cyflawnrwydd, byddaf yn awr yn adrodd cyfraith, sylwebaeth a manylion perthnasol y tir.

## 4.0 FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

4.1 Gellir creu priffordd gan oblygiad drwy gyflwyniad gan y tirfeddiannwr i ganiatáu'r cyhoedd i groesi ei dir ynghyd â'r cyhoedd yn derbyn y llwybr. Gellir mynegi'r fath gyflwyniad drwy ychydig o gamau gweithredu clir; neu ragdybio o ganlyniad i gyfnod o'r cyhoedd yn ei ddefnyddio'n ddiddadl.

4.2 Mae Adran 53(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn creu dyletswydd ar gyfer yr awdurdodau tirfesur (ac mae hyn yn cynnwys y Cyngor) i addasu eu mapiau a

datganiadau swyddogol drwy orchymyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i unrhyw ddigwyddiad a bennwyd yn adran 53(3) ddigwydd.

4.3 Y digwyddiad penodol mwyaf perthnasol i'n sefyllfa ni yw'r un sydd ym mharagraff (c)(i) o adran 53(3).

4.4 Mae Adran 53(3)(c)(i) Deddf 1981 yn nodi y dylid llunio Gorchymyn ar ôl darganfod tystiolaeth, o'i hystyried gyda phob tystiolaeth berthnasol arall, sy'n dangos "*bod hawl tramwy na ddangosir ar y map a'r datganiad yn bodoli neu yr honnir yn rhesymol ei fod yn bodoli dros dir yn yr ardal mae'r map yn cyfeirio ato...".*

4.5 Os mai tystiolaeth defnyddiwr yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais, gweithredir Adran 31(1) Deddf Priffyrdd 1980:-

*"Pan fydd ffordd...wedi cael ei mwynhau gan y cyhoedd fel petai hawl yn bodoli a heb ymyrraeth am gyfnod llawn o ugain mlynedd, pennir bod y ffordd honno wedi'i neilltuo fel priffordd oni bai bod yna dystiolaeth ddigonol nad oedd bwriad i'w neilltuo yn ystod y cyfnod hwnnw."*

4.6 Noda Adran 31(2) "*y cyfrifir 20 mlynedd yn ôl-weithredol o'r dyddiad pan ystyriwyd hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r ffordd.*

4.7 Mae Adran 31(1) o'r llwybr yn darparu bod tystiolaeth o ugain mlynedd o ddefnyddiwr parhaus "fel hawl" yn cymeradwyo honiad bod priffordd yn bodoli. Wrth benderfynu ar honiad yn seiliedig ar ddefnydd cyhoeddus o briffordd honedig dan Adran 31, mae felly yn angenrheidiol:-

- yn gyntaf, i sefydlu a oes defnydd wedi'i wneud gan y cyhoedd "fel hawl" am ugain mlynedd cyn i hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr gael ei gwestiynu ac;

- yn ail, i benderfynu a oes tystiolaeth ddigonol o ddiffyg bwriad gan y tirfeddiannwr i neilltuo'r ffordd i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod a fyddai wedi cael yr effaith gyfreithiol o wrthdroi'r rhagdybiaeth bod y briffordd yn bodoli yn gyfreithiol.

## 5.0 POLISI CYNGOR GWYNEDD

5.1 **Ddeddf Cydraddoldeb 2010-** Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Gymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A dal sylw dyledus at y ddyletswydd gymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Mae gofyn i'r pwyllgor ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad.

5.2 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r argymhelliad wedi ei baratoi gan ddal sylw at ofynnon y Ddeddf a chyfarch y pum ffordd o weithio

5.3 **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi

neu weithdrefn o’r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

5.4 **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu’r ddyletswydd bellach yma sy’n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

5.5 **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy’n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â’u teuluoedd.

5.6 Cynhaliwyd asesiad sydd yn ystyried y ddeddfau a restrwyd uchod ac o ganlyniad, nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad penodol yn deillio o’r penderfyniad.

## 6.0 MATERION SY'N GYFREITHIOL AMHERTHNASOL

6.1 Ni all yr Awdurdod ystyried ffactorau megis diogelwch y cyhoedd, diogelwch, dymunolrwydd, addasrwydd neu angen - er eu bod yn bryderon gwirioneddol - wrth wneud penderfyniad. Felly, er gall rhai pryderon gwirioneddol fodoli am y gwrthdaro *posib* rhwng mynediad y cyhoedd a rheolaeth tir, ni ellir ystyried y pryderon hyn wrth benderfynu ar gais i addasu'r Map a Datganiad Swyddogol. Mae’r holl broses yn ymwneud â phenderfynu a oes hawliau tramwy cyhoeddus mewn gwirionedd yn bodoli neu beidio.

## 7.0 TIRFEDDIANNAETH

7.1 Mae rhan o'r llwybr a hawlir yn croesi tir heb unrhyw berchennog hysbys presennol.

7.2 Yn achos tirfeddiannaeth anhysbys, cafodd Hysbysiadau a osodwyd yn datgan bod cais wedi'i wneud i Gyngor Gwynedd ar gyfer Gorchymyn Addasu Map Diffiniol, eu rhoi ar gyfeiriad y safle i "Berchennog ac Unrhyw Feddianwyr" o'r tir.

7.3 Cafodd basdata'r Gofrestrfa Tir ei chwilio a chadarnhawyd bod y llwybr a hawlir hefyd yn effeithio ar y teitlau canlynol:-

| | Cyf. Teitl | Perchennog cofrestredig |
|---|---|---|
| 1 | CYM535429 | CHRISTOPHER LAYTON BLACKHAM, Manor Farm, Church End, Leckhampstead, Buckingham, MK18 5NY. |
| 2 | CYM351395 | PETER JOHN SWASH, 18 Brooklands Drive, Goostrey, Swydd Gaer, CW4 8JB. MICHAEL JAMES DAWSON SWASH, 3 Bridewell Street, Wymondham, Norfolk, NR18 0AR. KENNETH STUART SWASH, 3 Aston, Claverley, Wolverhampton, WV5 7DZ. |
| 3 | CYM143326 | MICHAEL BRIAN JONES, Garth Celyn, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EG. |
| 4 | CYM132531 | PHILIP HANDLEY STUNT, 23 Bro Gwylwyr, Nefyn, Pwllheli, LL53 6LF. |
| 5 | CYM383267 | DIANA MURIEL GREENHILL, Hamilton, 95 Raglan Road, Reigate, Surrey, RH2 0ES. |
| 6 | CYM64017 | HYWEL ROWLANDS, Penrhyn, Rhodfa'r Môr, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EB. |
| 7 | CYM603977 | ROBIN JAMES BLACKHAM ac AMANDA SAMANE BLACKHAM, Penogfa, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |
| 8 | CYM59719 | JANE SPENCER, Hafod-Y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | CYM48840 | JANE SPENCER, Hafod-Y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |
| 10 | CYM676037 | LOUISE MARIE JOHNSON, Glan Y Môr, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |
| 11 | WA528290 | JANE SPENCER, Hafod-Y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |
| 12 | WA544580 | JANE SPENCER, Hafod-Y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP. |
| 13 | WA975906 | ANGELA JOSEPHINE THACKRAY ac ALISON MARY THACKRAY, 9 Firs Close, Formby, Lerpwl, L37 1PU.<br>PHILIPPA JANE THACKRAY, 32/3, Gosford Place, Caeredin, EH6 4BH. |
| 14 | WA747461 | LOUISE POTTER, Bishops Grange, Bishops Lane, Buxton, SK17 6UP.<br>DIANA COOKE, Kermarquer, 56160, Ploerdut, Llydaw, Ffrainc. |
| 15 | WA474696 | JOHN BOARDMAN MAKINSON Cyfreithiwr, a JANET SCOTT MAKINSON, 8 Lache Lane, Caer, CH4 7LR. |
| 16 | CYM730126 | KENNETH RODNEY GRAHAM GARSIDE, Castell Pentraeth, 1 Lôn Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EF. |
| 17 | CYM696470 | JAMES JUSTYN GREENHALGH, Jacamar, Gorelands Lane, Chalfont St. Giles, HP8 4HQ. |
| 18 | CYM378123 | CADARN CYF, Bodelen, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA. |
| 19 | WA514716 | REBECCA JOY SIMPSON, NICOLA JANE DYMOCK, PHILIPPA JANE THACKRAY a JAMES EDWARD SPENCER d/o Jacamar, Gorelands Lane, Chalfont St. Giles, HP8 4HQ. |
| 20 | CYM693736 | STEPHEN TREVOR ALLINSON, Hafod Y Bryn, Lôn Penrallt, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EW. |
| 21 | WA507674 | HELEN JOAN INGHAM, 9e Rawlinson Road, Southport, Glannau Merswy, PR9 9NP. |
| 22 | WA584452 | HELEN JOAN INGHAM, 9e Rawlinson Road, Southport, Glannau Merswy, PR9 9NP. |
| 23 | WA582033 | DAVID ANTHONY TWIST, Rhydelen, Lôn Y Castell, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EE. |
| 24 | CYM807365 | HEATHER MARY STANTON ac ENDAF WILSON, 1 Trem Y Don, Bryn Glas, Nefyn, Pwllheli, LL53 6HS. |
| 25 | CYM619460 | NIA WYN PERCY, 31 Denton Road, Caerdydd, CF5 1PD. |
| 26 | WA508111 | HYWEL ROWLANDS, Tan Y Graig, Boduan, Pwllheli, Gwynedd. |
| 27 | WA476245 | ADRIAN JAMES GARSIDE, 2848 East Lake, Sammamish Parkway, NE Sammamish, WA98074, Unol Daleithiau America. |
| 28 | WA765614 | JAN DORIAN BHAGEERUTTY, The Deanery, Church Road, Broseley, Swydd Amwythig. |
| 29 | WA728032 | NICHOLAS PAUL LINDLEY, 1 Chaseley Close, Etching Hill, Rugeley, Swydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Stafford. |
| 30 | WA896802 | JAMES FABIAN SEAMAN, JILLIAN RUTH SEAMAN, GUY RICHARD SEAMAN a JENNIFER MARY SEAMAN, Bay Holme, Lon-Tyn-Pwll, Nefyn, Gwynedd, LL53 6EN. |
| 31 | CYM164016 | JILL ANGELA ELSA JONES, 159 Woodhouse Lane East, Timperley, Altrincham, Manceinion Fwyaf, WA15 6AN. |
| 32 | WA595556 | MICHAEL KENNETH JONES a JENNIFER SUSAN JONES, 93 Station Road, Hatton, Swydd Derby. |
| 33 | CYM317438 | THE QUEEN'S MOST EXCELLENT MAJESTY IN RIGHT OF HER CROWN d/o Comisiynwyr Ystâd y Goron, 1 St James's Market, Llundain, SW1Y 4AH. |
| 34 | Dim teitl | RHEOLWR STADAU, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd, Swyddfa’r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH. |

## 8.0 TYSTIOLAETH DEFNYDDIWR

8.1 Nid oes angen isafswm lefel statudol o ddefnyddwyr i ddangos defnydd digonol i arwain at ragdybiaeth o gyflwyniad, fodd bynnag, dylai'r ffordd gael ei defnyddio gan y cyhoedd neu'r gymuned.

8.2 Mae'n rhaid i'r cyhoedd fod wedi defnyddio'r ffordd heb heriau ac "fel hawl" (hynny yw, heb rym, cyfrinachedd neu ganiatâd) dros gyfnod o ugain mlynedd.

8.3 Gellir dangos y cyfnod o ugain mlynedd ar unrhyw adeg yn y gorffennol ac, yn gyffredinol, caiff ei ystyried i redeg yn ôl o'r amser lle cafodd y defnydd o'r llwybr ei gwestiynu am y tro cyntaf.

8.4 Cefnogwyd cais y Cynghorydd Gruffydd Williams gan 28 Datganiad Tystiolaeth yn dangos tystiolaeth o ddefnydd cyhoeddus yn amrywio o ddiwedd y 1930au i'r presennol. Mae'r tabl a ddarparwyd yn Atodiad 3 yn crynhoi'r defnydd honedig fel y nodir yn y Datganiadau. Rhoddir rhif cyfeirnod i bob defnyddiwr, sy'n galluogi eu hadnabod yn yr adroddiad ei hun.

8.5 Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gyda deuddeg o'r 28 o dystion oedd yn cefnogi'r llwybr a hawlir. Yna, darparodd pob un o'r deuddeg hawliwr ddatganiadau tyst pellach a gellir gweld y dogfennau hyn yn Atodiad 4. Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i'r hawlwyr i egluro ac ehangu ar eu tystiolaeth.

8.6 Mae tystiolaeth y defnyddwyr yn dangos bod defnyddwyr 19 a 27 wedi dechrau defnyddio'r llwybr ynghanol i ddiwedd y 1930au, defnyddwyr 16 yn y 1940au, defnyddwyr 8, 11 a 22 yn y 1950au, defnyddwyr 3, 4, 20 a 26 yn y 1960au, defnyddwyr 1, 2, 6, 12, 13, 14 a 15 yn y 1970au, defnyddwyr 5, 7, 17, 18, 23 a 24 yn y 1980au, a defnyddwyr 9, 10 a 25 o'r 1990au. Ni roddir manylion gan ddefnyddiwr 21.

## 9.0 BARN Y TIRFEDDIANWYR

9.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r amryw o dirfeddianwyr fel y rhestrwyd yn y tabl ym mharagraff 7.3.

9.2 Gellir gweld crynodeb o ymatebion y tirfeddianwyr yn Atodiad 5.

**10.0 YMGYNGHORIAD**

10.1 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda grwpiau defnyddwyr ac ymgymerwyr statudol yn unol â nodiadau Canllawiau Ymarfer y Pwyllgor Adolygu Hawliau Tramwy. Ystyriwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r broses hon isod:-

10.2

| Ymgynghorai | Ymateb |
|---|---|
| Ramblers Association | Dim ymateb |
| The British Horse Society | Dim ymateb |
| Welsh Trail Riders Fellowship | Dim ymateb |
| British Driving Society | Dim ymateb |
| Power Systems | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Nefyn | Cefnogi'r cais yn llawn. |
| Mrs Maggie Barry, Ramblers County Footpath Ysgrifennydd (Arfon / Dwyfor) | Dim ymateb |
| Gary Thompson, Ystâd y Goron | Nid yw tir Ystâd y Goron yn gorgyffwrdd â'r tir lle mae'r hawl tramwy cyhoeddus honedig wedi'i leoli. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cefnogi'r achos o gofrestru fel hawl tramwy.<br><br>Wedi gweld llawer o bobl yn defnyddio'r llwybr pan mae'r llanw'n uchel.<br><br>Mynegi pwysigrwydd y llwybr mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru.<br><br>Pryderon ynghylch cynnal a chadw mewn perthynas â pha mor ansefydlog gall y clogwyni fod. |
| Alwyn Thomas, Openreach BT Notice Handling Centre | Dim effaith gan y cynnig. |
| Ymddiredolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau/The Byways and Bridleways Trust | Dim ymateb |
| CTC National Cyclists Organisation | Dim ymateb |
| Auto Cycles Union | Dim ymateb |
| Dŵr Cymru | Dim ymateb |
| Cymdeithas Mannau Agored | Dim ymateb |

**11.0 DYDDIAD CODI CWESTIWN**

11.1 Er mwyn gwneud achos dan Adran 31 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae angen sefydlu dyddiad pan ddaeth hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr o dan amheuaeth.

11.2 Yn yr achos penodol hwn, ac yn sgil paragraff 3.0, dadleua'r awdur nad oes dyddiad cyflwyniad tybiedig.

## 12.0 CASGLIAD

12.1 Cesglir na ddylid cofnodi'r llwybr sydd wedi'i farcio ar A i E (yn y cynllun yn Atodiad 1) ar y Map a Datganiad Swyddogol.

12.2 Os caiff yr argymhelliad ei dderbyn, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i un o Weinidogion Cymru sy'n berthnasol.

## 13.0 ARGYMHELLIAD

13.1 Gwrthod y cais i ychwanegu llwybr cyhoeddus i Fap a Datganiad Swyddogol y Cyngor fel a ddangosir o A i E yn y cynllun a ddarperir yn Atodiad 1.

## 14.0 PAPURAU CEFNDIR

**Ffeil: 53B/Dwyfor/FPNefynHarbour**